The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (Cyfeirnod yr achos: EN010137)**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Mater Penodol 5 (ISH5): Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)**

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Mater Penodol 5: Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft** | **Dydd Iau 24 Hydref 2024**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 9:30yb**<br>Cynhadledd Trefniadau Rhithwir o 9:00yb | **Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams** |

**Agenda**

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Pwrpas y Gwrandawiad Mater Penodol**

   Bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn egluro pwrpas y gwrandawiad a'r ystod o bynciau a fydd yn cael eu cynnwys.

3. **Erthyglau ac atodlenni'r dDCO (heb gynnwys Atodlenni 2, 10, 12, 14 a 15)**

   Gofynnir i'r Ymgeisydd dynnu sylw'n fyr at y newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r dDCO a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 2 (D2) [REP2-004].

   Gall yr ExA ofyn cwestiynau mewn perthynas ag erthyglau ac atodlenni yn y dDCO, gan ofyn am ymatebion gan yr Ymgeisydd a'r Partïon â Buddiant.

   Bydd gwahoddiad i IPau hefyd godi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag erthyglau ac atodlenni Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).

4. **Atodlen 2 ac Atodlen 12 i'r dDCO (Gofynion a chymeradwyo materion a bennir yn y gofynion)**

   Gofynnir i'r Ymgeisydd amlygu ac egluro'n gryno unrhyw newidiadau i ofynion o fewn y dDCO a gyflwynwyd yn D2.

   Yna bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau, gan ofyn am ymatebion lle bo'n briodol gan yr Ymgeisydd a'r IPau.

Gwahoddir IPau hefyd i ofyn cwestiynau o eglurhad mewn perthynas â gofynion DCO.

Bydd yr ExA yn gofyn i IPau, yn enwedig Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdodau cynllunio perthnasol, a oes unrhyw bryderon ynghylch y dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni gofynion, neu ar gyfer rheoli apeliadau neu anghydfodau o dan y dDCO.

**5. Atodlen 10 y dDCO (Darpariaethau Amddiffynnol)**

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhwng partïon o ran darpariaethau diogelu; esboniad o unrhyw wahaniaethau barn bwysig ac amserlen ar gyfer eu datrys.

**6. Atodlen 14 (Trwydded Forol Dybiedig)**

Gofynnir i'r Ymgeisydd dynnu sylw'n fyr at unrhyw newidiadau sylweddol i Atodlen 14 a gyflwynwyd yn D2. Gofynnir i’r Ymgeisydd ac TTM CNC am ddiweddariad ar y cais Trwydded Forol ar wahân ar gyfer asedau trawsyrru Mona.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau am ddarpariaethau’r Drwydded Forol Dybiedig a’r Ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol [REP2-028].

**7. Atodlen 15 (Dogfennau a Chynlluniau i'w Hardystio)**

Gofynnir i'r Ymgeisydd amlygu'n fyr unrhyw newidiadau i'r rhestr hon yn y dDCO a gyflwynwyd yn D2.

**8. Caniataid, Trwyddedau a Chytundebau Eraill**

Gofynnir i’r Ymgeisydd roi diweddariad ar gynnydd ac amserlenni ar gyfer cwblhau Ganiatadau Eraill a Thrwyddedau Angenrheidiol (a gyflwynwyd yn D3) a’r Traciwr Cytundebau Ochr Fasnachol [REP1-036]

**9. Datganiadau Tir Cyffredin sy'n berthnasol i'r DCO**

Bydd yr ExA yn gofyn i’r Ymgeisydd roi diweddariad ar Ddatganiadau Tir Cyffredin sy’n berthnasol i’r dDCO.

**10. Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi**

**11. Unrhyw fusnes arall**

**12. Cau'r gwrandawiad**

**Cymryd rhan yn y Gwrandawiadau**

Roedd manylion llawn am sut i gymryd rhan yn y gwrandawiad hwn wedi'u cynnwys yn y llythyr hysbysu a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2024. Mae'n rhaid i chi gofrestru drwy e-bostio blwch post y prosiect erbyn dydd Llun 7 Hydref 2024, os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawiad hwn.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, a bydd dolen i wylio'r llif byw yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn nes at ddyddiad y digwyddiad. Felly gall IPs ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawiad weld a gwrando ar y gwrandawiad gan ddefnyddio'r llif byw, neu weld a gwrando ar y recordiad, ar ôl iddo ddod i ben.

Bydd y gwrandawiad yn cynnwys archwilio cyflwyniadau hyd at a chan gynnwys D3. Er y disgwylir sylwadau ysgrifenedig ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr ExA yn D4 (4 Tachwedd 2024), gall yr ExA ofyn i bartïon ymateb i gyflwyniadau D3 yn y gwrandawiad.

**Mynychwyr**

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiad hwn.

- **Yr Ymgeisydd**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)**
- **Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)**
- **Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC (TTM))**
- **Cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC A)**
- **Trinity House**
- **Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)**
- **Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)**
- **Unrhyw Bartïon â Buddiant eraill** – sydd â diddordeb yn y dDCO

Fodd bynnag, nid yw hyn yn awgrymu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant (IP) i fod yn bresennol a chyflwyno sylwadau llafar ar y materion a nodir yn yr Agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawiad.

Mae'r ExA wedi ceisio darparu digon o fanylion i gynorthwyo'r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Mae'r manylion a nodir uchod yn ddangosol ac efallai y bydd angen i'r ExA gynnwys eitemau ychwanegol ar yr Agenda neu ddiwygio'r drefn yr ymdrinnir â'r eitemau.

**Gweithdrefn yn ISH**

Mae canllawiau o dan PA2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai'r ExA sydd i archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynau uniongyrchol i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawiadau.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd yr ExA yn cynnal y gwrandawiad yn y fath fodd fel na fydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Bydd yr ExA yn arwain y gwaith o gwestiynu partïon sy’n gwneud sylwadau llafar ac yn archwilio, profi ac asesu’r dystiolaeth. Fel arfer nid oes unrhyw bartïon eraill yn croesholi tystion, er bod gan yr ExA’r pŵer i ganiatáu hyn dan rai amgylchiadau.

Daw'r gwrandawiad i ben pan fydd yr ExA o'r farn bod yr holl faterion wedi'u cynnwys a bod yr holl gyfranogwyr wedi cael cyfle i wneud eu sylwadau. Fel canllaw, nod yr ExA yw cau'r gwrandawiad erbyn tua 5yp. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig.

Dylid cynnwys crynodeb o’r dystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar yng Ngwrandawiad Mater Penodol 5 yn y cyflwyniadau ar ôl y gwrandawiad i’w cyflwyno erbyn Dyddiad Cau 4 yn Amserlen yr Archwiliad (4 Tachwedd 2024). Byddai’r ExA yn argymell i unrhyw bartïon sy’n newydd i’r broses ac sy’n dymuno dysgu mwy am y cefndir a’r gweithdrefnau mewn gwrandawiadau ddarllen Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol: tudalennau cyngor.

Ebost: MonaOffshoreWindProject@planninginspectorate.gov.uk
Ffon: 0303 444 5000.